

## Cofnodion Cyfarfod y 6ed Tachwedd 2018

**Yn bresennol :-** Y Cadeirydd **Idris Thomas** a'r Cynghorwyr, Phyllis Ellis, Elfed Wyn Williams, Martin Davies, Jane Pierce, R Hefin Williams, Rhian Evans-Hill, Gareth Wyn Griffiths, Richard Llwyd Jones a Lowri Hughes.

Croesawyd y Cynghorydd Elwyn Jones

**Gweddi:** Offrymwyd gair o weddi mewn ffurf englynion yn amserol i gofio am bywyd rhai a gollwyd mew rhyfeloedd.

### **1.Ymddiheuriadau.**

Aled Green, Gwawr Wyn Roberts a Emma Chappell

### **2.Datgan buddiant**

Dim

### **3. Cofnodion Cyfarfod 4ydd Hydref**

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir

**Richard Ll. Jones (1)**

**Phyllis Ellis (2)**

### **4. Materion o'r cofnodion**

**Clybiau Ieuenctid** – Yn dilyn cysylltu i gael trosglwyddo yr arian oedd ar ôl yn nghronfa'r 3 clwb ieuenctid, nid oes ymateb wedi bod o gwbl. Y clerc i gysylltu yn gofyn beth yw'r cam nesaf.

**Allt Ddu** – Dywedodd y clerc ei bod wedi cysylltu a Gareth Roberts ynglyn a creu arwydd a hanes yr ardal, a gobeithio bydd Gareth yn ymuno gyda ni yn nghyfarfod mis Rhagfyr. Dywedodd y Cadeirydd fod yna hysbyseb teithiau cerdded gan Menter Fachwen yn Eco'r Wyddfa mis Hydref, a hynny yn nodi man cychwyn fel "turnaround Bysiau, Dinorwig". Y clerc i yrru llythyr yn egluro yr hyn sydd dan sylw ac mai Allt Ddu yw'r enw cywir, ac efallai awgrymu defnyddio man cychwyn fel "Allt DDU, ger Cofeb y Chwarelwyr, Dinorwig" yn hytrach. Hefyd, awgrymwyd i gysylltu gyda Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru, gan ddatgan ein bod yn ceisio gwneud cymaint i gadw enw hynafol pwysig yr ardal yma a'i hanes.

**Mainc Brynrefail** – Ar ôl ymgynghori a sawl preswlydd yn yr ardal, a siarad ymhellach a CCG, mae CCG wedi cytuno i symyd 1 bolder carreg a gadael y Fainc lle mae hi yn bresennol, gan mai fan honno ydi'r lle gorau iddi fod.

**Seddi Gwag** – Nid oes neb wedi dangos diddordeb yn y sedd wag yn Bethel na Deiniolen, on dos bydd, byddwn yn cyfethol mis Rhagfyr.

**Llythyrau Diolch** – Derbyniwyd a darllenwyd llythyrau gan fudiadau lleol yn datgan eu gwerthfawrogiad am nawdd:

Neuadd Bentref Rhiwlas, Cylch Meithrin Deiniolen, Pwyllgor Neuadd Penisarwaun, Eisteddfod Bentref Penisarwaun, Eisteddfod Gadeiriol Deiniolen, LLais Ogwan, Clwb Bro Bethel, Cronfa Diffib Rhiwlas, Clwb Bowlio Dan Do Bethel, Clwb Bro Rhiwen, Seindorf Arian Deiniolen, Clwb Pensiynwyr Penisarwaun

### **5. Gohebiaeth a materion eraill**

**Gwaith Ail Wynebu'r Ffordd, Stryd Uchaf Rhiwlas** – Ar ôl sawl blwyddyn a cais ar ôl cais i'r cyngor Sir, maent bellach am ail wynebu'r ffordd yma. Bydd y gwaith yn cychwyn ar Tachwedd 19 ac yn cymeryd wythnos i'w gwblhau.

**Banciau Ailgylchu** – Ar ôl nifer o flynyddoedd, mae gwasanaeth banciau ailgylchu yn Bethel a Rhiwlas wedi dod I ben. Rheswm pennaf am hyn yn ôl Cyngor Gwynedd yw cost y gwasanaeth. Fodd bynnag, mae darpariaeth gyfatebol ar gael i ailgylchu drwy'r gwasanaeth wythnosol bob eiddo, neu ymweld a un o'r Canolfannau Ailgylchu.

## **6. Cynllunio**

**Ceisiadau a dderbyniwyd yn ystod y mis:**

**1 Dinorwig Cottage** – Estyniad deulawr I ochor y tŷ. **Dim Gwrthwynebiad**

**8 Blancathra, Bethel** – Adeiladu Estyniad Cefn a Modurdy **Dim Gwrthwynebiad**

**Cae OS 5781, Seion** – Gwaith trin dwr aflon, rhodfa a gwellianau I'r mynedfa ffensys a thirlunio **Dim Gwrthwynebiad**

Nodwyd fod 2 safle yn Bethel wedi ei ganiatau, Mae Bron Gwynedd, y tai wedi eu adeiladu, ac wedi eu gwerthu I Grwp Cymnefin, fydd o bosib yn rhentu I rhywyn sydd are u rhestr yn aros am dŷ. Roedd y tir yma wedi ei wrthod 3 gwaith gan y llywodraeth, ac yn y diwedd yn groes i'r llywodreth a barn lleol, yn cael ei dderbyn gan Cyngor Gwynedd.

**Cae Sam** - Y cais cynllunio bellach wedi ei basio a'l werthu yn dilyn derbyn cynllunio i 7 tŷ a 2 o'r heini yn dai Fforddiadwy.

Tybed a ydi Adran Cynllunio Cyngor Gwynedd yn craffu digon ar y ceisiadau yma, a pam mae pethau yn newid ar ôl caniatad cynllunio.

## **Gofynwyd i'r Clerc:**

Cysylltu a Grwp Cynefin yn gofyn am Polisi Gosod Tai ganddynt.

Cysylltu a Cyngor Gwynedd yn gofyn sut y mae'r cais Bron Gwynedd wedi ei dderbyn gyda cymaint o wrthwynebiad i'r cais.

CCG – Nodi fod llechi o Sbaen yn cael eu defnyddio pan yn ail doi eu tai. Pam na ellir defnyddio llechi lleol i sicrhau gwaith. Hefyd, pam nad oes gan CCG contractwyr a gweithwyr lleol yn gweithio ar y tai sydd yn cael gwelliannau.

## **7. Diweddaraid GDPR**

Mae Drafft y GDPR mwy neu lai yn barod i'w roi ar y wefan bellach.

## **8. Adborth Noson Hyfforddiant**

Nodwyd fod bawb wedi mwynhau y noson. Cafwyd cyfle ar y noson i roi adborth ar y cwrs ar ffurflenni i Unllais. Cytunwyd i'r Clerc drefnu noson hyfforddiant ymhellach eto yn y Gwanwyn, fel ein bod yn cael y cyfleoedd i sicrhau ein bod yn cadw I fyny gyda newidiadau mewn deddfau ayyb. Nodwyd fod croeso i unrhyw aelod fynd ar un o'r cyrsiau Unllais sydd yn cael eu cynnal yn aml. Y clerch i yrru rhestr diweddarfa ymlaen i bawb.

## **9. Trafodaeth Agored Praesept 19/20**

Mae angen trafod y praesept, a nodwyd fod angen gwneud hynny a chadarnhau a cytuno iddo yn nghyfarfod Rhagfyr, er mwyn I'r clerch allu cysylltu a'r Cyngor Sir i drefnu'r cyllid. Gan nad oes byth ddigon o amser I drafod cyllideb yn iawn, penderfynwyd y buaswn yn trefnu noson ar y 27ain o Tachwedd i drafod Praesept yn unig, gan gytuno a'i dderbyn yn cyfarfod Rhagfyr.

## **11. O gwmpas y Bwrdd**

**Biniau Halen** – Caead i Bin Ty'n Fawnog/Bro Elidir, Allt Pen Dinas ac angen o'r Newydd yn

Lon Garnedd ger y fferm a ger y cae chwarae yn Peniasarwaun.

**Brynrefail** - Gofyn faint ac oes posib symyd y golau ar y prif ffordd o lle mae tua 20 metr fel ei fod yn goleuo y groesfan yno.

**Diffriblydd** – Bydd noson yn cael ei chynnal ym Mhenisarwaun i drafod cronfa diffriblydd i'r pentref, bydd fwy o fanylion i ddilyn.

**LLwybr i'r Cysgodfan Bws , Penisarwaun** – Gofyn am bris i wneud llwybr caled i'r cysgodfan Bws yn Penisarwaun.

**Rhiwlas** – Cais eto i llnau Gwlliau cyn y gaeaf.

**Bethel** – Mae yna arwydd 20mya wrth ymyl yr Ysgol. Mae goleuadau yn fod i fflachio, ond ddim yn gweithio ers dipyn Cysylltu a cyngor Gwynedd.

Llwybr nesaf i fyny o Capel Bethel yn lon gwaelod i Glan Gors – Coeden Iddew angen eiocio.

Llwybr yn cydreddeg a hen rheilffordd is lawr na Cysegr angen ael gwared a drain.